The Additional Learning Needs Code for Wales 2021

All children and young people are individuals, some may find learning more challenging than their peers, and this may be due to an additional learning need. With an aim of ensuring that all children and young people in Wales have the best opportunities to do well in life, the Welsh Government, in 2021 launched the Additional Learning Needs (ALN) Code for Wales.

The ALN Code is aimed at ensuring that children and young people's additional learning needs are identified early and addressed quickly to enable them to achieve their full potential. It contains statutory guidance for local authorities, governing bodies of maintained schools (including maintained nursery schools and pupil referral units) and other public authorities.

The ethos of the code is enabling children and young people to **achieve their full potential** by identifying additional needs at an early stage, similarly the ethos of Out of School Childcare Clubs is one of providing care and play opportunities to enhance children and young people's **capacity for positive development**.

While the Out of School Childcare sector is not bound by the code, they should have **regard** to it, below are some frequently asked questions that will enable you to understand your role and how you can support the code:

Whose responsibility is it to decide that a child has additional learning needs?

This is dependent on the age of the child. Prior to the age of 5 and attending full time education, the responsibility lies with the local authority, after the age of 5 the responsibility is with the school.

I have a child attending my setting that may have additional needs, what should I do?

While we understand that you may have children in your care that may have additional needs such as physical or medical, not all children with additional needs have additional learning needs.

If you are concerned that a child in your care has additional learning needs (or just additional needs) you should discuss your concerns with the child's parent. It is also good to have a working relationship with the school that the child attends to discuss ways in which you can support the child or raise your concerns – where it is in the best interests of the child.

We receive Early Entitlement funding for a child who has ALN; what are our responsibilities?

Your responsibilities will be to support the local authority or the school with their duty to that child. This could include providing a room for an IDP meeting or facilitating therapists visiting your setting.

What is an IDP?

An IDP is an Individual Development Plan, the plan will contain a description of the child's additional learning need and what needs to be put in place to support that child. The IDP will be developed by the local authority or the school, dependent on the age of the child.

We have a child attending that has ALN; do we have to attend meetings?

No, you do not have to attend meetings, however, if you feel that you have something to contribute you can ask to attend or send in a report / letter.

Do we have to have a nominated person in our setting for Additional Needs?

While there is no expectation for you to have a nominated person, you may wish to have a champion who supports / advocates for child/ren with additional needs.

Do we have to attend training? What training is there available?

Attending training is not mandatory, but you may feel that to best meet the needs of children who attend your setting you may wish to attend training. The Welsh Government has online learning resources to support increased knowledge: https://hwb.gov.wales/repository/discovery?sort=recent&catalogs=35b98ab1-7635-4670-8830-173fb8dbb0fd&strict=1

What can I do to support a welcoming environment for all children?

All children are individuals, understanding what support any child needs is vital to providing a welcoming environment. Taking a child-centred approach to the children in your care ensures a clear understanding of the needs, rights, best interests of and the things that matter to each child.

Working with policies and procedures that you will already have in place support you to provide a welcoming environment, these may be policies such as:

Equal Opportunities*;* supporting the provision of equality of opportunity for all children whatever their age, ability, gender, race or background, ensuring that expectations, attitudes, and practices do not prevent any child from reaching their potential.

Intimate Care Policy; supporting the health, safety, independence and welfare of children of all ages, promoting the respect of their dignity and privacy.

Individual Needs Policy*;* supporting the integration and treatment of all children as individuals, providing a welcoming and supportive environment, treating all with dignity and respect.

Children's Participation Policy recognising that being listened to and heard, and being involved in decisions will help create a sense of ownership and increase self-esteem in children.

We have further resources to support a child-centred approach:

10 Ways to Support Inclusivity

10 Ways Your Out of School Childcare Setting Can Support Children's Rights

10 Ways The Child's Voice Can Help Shape Your Setting

Dyma Fi – a one page profile all children in your setting can use to let you know about themselves.

If you're not sure if you are meeting your children's needs, or if you feel there are adaptations which could be made but you are not sure how to go about them then please don't hesitate to get in touch with your friendly team at Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs who can support you with every aspect of your Out of School Childcare Business.

Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol I Gymru 2021

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn unigolyn; bydd rhai'n cael dysgu'n fwy heriol na'u cyfoedion, ac fe allai hyn fod oherwydd angen dysgu ychwanegol. Â'r nod o sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'n cael y cyfleoedd gorau i wneud yn dda yn eu bywydau, lansiodd Llywodraeth Cymru y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i Gymru yn 2021.

Nod y Cod ADY yw sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod yn gynnar ac y rhoddir sylw iddynt yn fuan i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn. Y mae'n cynnwys arweiniad statudol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir (yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau atgyfeirio disgyblion) ac awdurdodau cyhoeddus eraill.

Ethos y cod yw galluogi plant a phobl ifanc i **gyrraedd eu potensial llawn** drwy adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar; yn yr un modd, ethos Clybiau Gofal Plant Allysgol yw darparu gofal a chyfleoedd chwarae er mwyn gwella **capasiti ar gyfer datblygiad cadarnhaol** plant a phobl ifanc.

Er nad yw'r sector Gofal Plant allysgol yn rhwym wrth y cod, dylent **roi sylw** iddo. Gwelir isod rai cwestiynau cyffredin a fydd yn eich galluogi i ddeall eich rôl a sut y gallwch gefnogi'r cod:

Cyfrifoldeb pwy yw penderfynu bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol?

Mae hwn yn ddibynnol ar oed y plentyn. Os yw o dan 5 mlwydd oed ac yn mynychu addysg amser llawn, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hyn; cyfrifoldeb dros yr ysgol os yw dros 5 mlwydd oed. .

Mae gennyf blentyn sy'n mynychu fe lleoliad, a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol; beth ddylwn i ei wneud?

Deallwn efallai bod gennych blant yn eich gofal a all fod ag anghenion ychwanegol, megis rhai corfforol neu feddygol, ni fydd pob plentyn ag anghenion ychwanegol ag anghenion dysgu ychwanegol.

Os ydych yn bryderus rhag ofn bod gan blentyn yn eich gofal anghenion dysgu ychwanegol (neu ddim ond anghenion ychwanegol) dylech drafod eich pryderon gyda rhiant y plentyn. Y mae hefyd yn beth da bod â pherthynas weithio â'r ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu er mwyn gallu trafod ffyrdd y gallwch gefnogi'r plentyn neu godi'ch pryderon - lle bo hynny er budd gorau'r plentyn.

Rydym yn derbyn ariannu parthed Hawl plentyn sydd ADY yn y Blynyddoedd Cynnar i ariannu; beth yw ein cyfrifoldebau ni?

Eich cyfrifoldebau chi fydd cefnogi'r awdurdod lleol neu'r ysgol yn eu dyletswydd i'r plentyn hwnnw. Gallai hyn gynnwys darparu ystafell am gyfer cyfarfod ynghylch CDU neu hwyluso'r ffordd i therapyddion ymweld â'ch lleoliad.

Beth yw CDU?

Cynllun Datblygu Unigol yw CDU; bydd y cynllun yn cynnwys disgrifiad o angen dysgu ychwanegol y plentyn a'r hyn y mae angen i roi yn ei le i gefnogi'r plentyn. Bydd y CDU yn cael ei ddatblygu gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol, yn ddibynnol ar oed y plentyn.

Mae gennym blentyn sy'n mynychu sydd ag ADY; a oes rhaid i ni fynychu cyfarfodydd?

Na, does dim rhaid i chi fynychu cyfarfodydd; ond os ydych yn teimlo bod gennych rywbeth i'w gyfrannu gallwch ofyn am gael bod yn bresennol neu anfon adroddiad / llythyr.

A oes rhaid i ni fod â pherson yn ein lleoliad sydd wedi ei enwebu ar gyfer Anghenion Ychwanegol?

Er nad oes disgwyliad i chi fod â pherson wedi ei enwebu, efallai yr hoffech gael hyrwyddwr sy'n cefnogi / eiriol dros blentyn/blant ag anghenion ychwanegol.

A oes rhai i ni fynychu hyfforddiant? Pa hyfforddiant sydd ar gael?

Nid yw'n orfodol mynychu hyfforddiant, ond efallai y byddech yn awyddus i fynychu hyfforddiant er mwyn ateb anghenion plant sy'n mynychu eich lleoliad. Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau dysgu ar-lein i gefnogi cynnydd mewn gwybodaeth: https://hwb.gov.wales/repository/discovery?sort=recent&catalogs=35b98ab1-7635-4670-8830-173fb8dbb0fd&strict=1

Beth allaf i ei wneud i gefnogi amgylchedd croesawgar i bob plentyn?

Mae pob plentyn yn unigolion; mae deall pa gefnogaeth sydd ei hangen ar unrhyw blentyn yn hollbwysig i ddarparu amgylchedd croesawgar. Mae bod ag agwedd plentyn-ganolog tuag at y plant yn eich gofal yn sicrhau dealltwriaeth glir o'r anghenion, hawliau, y budd gorau a'r pethau sydd o bwys i bob plentyn unigol.

Gweithio gyda pholisïau a gweithdrefnau sydd efallai yn eu lle gennych eisoes i'ch cefnogi i ddarparu amgylchedd croesawgar; gallai'r rhain fod yn bolisïau megis:

Cyfle Cyfartal*;* sy'n cefnogi darpariaeth lle ceir cyfle cyfartal i bob plentyn, beth bynnag fo'u hoed, eu gallu, rhywedd, hil neu gefndir, gan sicrhau nad yw disgwyliadau, agweddau ac arferion yn rhwystro unrhyw blentyn rhag cyrraedd eu potensial.

Polisi Gofal Personol; sy'n cefnogi iechyd, diogelwch, annibyniaeth a lles plant o bob oed, gan hyrwyddo parch at eu hurddas a'u preifatrwydd.

Polisi Anghenion Ychwanegol sy'n cefnogi integreiddio a thrin pob plentyn fel unigolyn, darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol a thrin pawb ag urddas a pharch.

Polisi Cyfranogaeth Plant sy'n cydnabod bod eraill yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu clywed, ynghyd â bod yn r hân o benderfyniadau, yn help i greu'r synnwyr o berchnogaeth, a chynnydd yn hunan-dyb mewn plant.

Mae gennym adnoddau pellach i gefnogi agwedd plentyn-ganolog:

10 Ffordd i Gefnogi Cynhwysiant

10 Ffordd y gall eich Lleoliad Gofal Plant Allysgol Gefnogi Hawliau Plant

10 Ffordd y gall Llais y Plentyn Lunio'ch Lleoliad

Dyma Fi – proffil un-tudalen y gall pob plentyn yn eich lleoliad ei ddefnyddio i roi gwybod i chi amdanyn nhw eu hunain.

Os nad ydych yn siŵr eich bod yn ateb anghenion eich plant, neu os ydych yn teimlo bod addasiadau y gellid eu gwneud, ond nad ydych yn sicr sut i fynd o'u cwmpas, yna peidiwch â phetruso, cysylltwch â'ch tîm cyfeillgar yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a all eich cefnogi ym mhob agwedd o'ch Busnes Gofal Plant Allysgol.